**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Mehefin 2019. Mae'r Bil i'w weld yma: https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/animalwelfaresentencing.html

**Amcan(ion) y Polisi**

3. Amcan polisi Llywodraeth y DU yw cynyddu'r gosb lymaf o ddedfryd o garchar am y tramgwyddau mwyaf erchyll o gam-drin anifeiliaid i anfon neges glir bod creulondeb i anifeiliaid yn annerbyniol yng Nghymru a Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

5. Mae'r Bil yn cynyddu'r gosb lymaf am droseddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwneud hynny drwy gynyddu’r gosb lymaf bresennol, a nodir yn adran 32 o'r Ddeddf, o chwe mis a/neu ddirwy anghyfyngedig i gosb o bum mlynedd a/neu ddirwy anghyfyngedig. Mae'r tramgwyddau hyn felly yn dramgwyddau neillffordd, a gellir eu clywed yn y Llys Ynadon neu Lys y Goron.

   Cyhoeddwyd y cymalau dedfrydu drafft yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar 12 Rhagfyr 2017 fel rhan o'r Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Dedfryd). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2018 a chyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion ar 7 Awst 2018. Cafodd DEFRA 9,084 o ymatebion uniongyrchol i’r ymgynghoriad. Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cosbau newydd. Yn y crynodeb o ymatebion, roedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddwyn ymlaen y cymalau dedfrydu mewn Bil ar wahân.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

6. <u>Cymal 1:</u> <u>Dull Treial a'r Gosb Lymaf am Dramgwyddau Penodol sy'n Ymwneud â Lles Anifeiliaid</u>

   Mae Adran 32(1) o'r Ddeddf yn darparu y dylid dyfarnu cosb o uchafswm o 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy anghyfyngedig am droseddau penodedig.

   Yn ymarferol, mae'r gosb lymaf wedi'i chapio i 6 mis a/neu ddirwy anghyfyngedig. Mae hyn oherwydd bod adran 32(5) o'r Ddeddf yn pennu bod y cyfeiriad at 51 wythnos o garchar i'w ddarllen fel cyfeiriad at 6 mis o garchar am bob tramgwydd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Hyd yma, nid yw adran 281(5) wedi'i chychwyn.

   Mae'r cymal hwn yn newid y gosb lymaf sydd ar gael ar gyfer y tramgwyddau a ganlyn yn unig:

   a. Achosi dioddefaint diangen (adran (4);
   b. Anffurfio anifail mewn modd nad yw wedi'i esemptio (adran 5);
   c. Torri cynffon ci ac eithrio pan ganiateir hynny (adran 6(1) a (2));
   d. Rhoi gwenwyn i anifail (adran 7); ac
   e. Bod ynghlwm wrth frwydr anifeiliaid (adran 8).

   Caiff y gosb lymaf bresennol, fel yr amlinellir uchod, ei chadw os yw'r troseddwr yn cael ei euogfarnu'n ddiannod. Fodd bynnag, gall troseddwyr bellach gael cosb uwch o hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy anghyfyngedig os cânt eu heuogfarnu ar dditiad mewn treial.

   O dan adran 78 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, nid oes gan lysoedd ynadon y pŵer i gyflwyno cosbau o fwy na chwe mis. Gwnaeth adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gynyddu'r ddedfryd lymaf o garchar y gellir ei rhoi gan lys ynadon i 12 mis. Fodd bynnag, nid yw adran 145(1) wedi cychwyn hyd yma ac mae’r adran 32(4A) newydd hon o’r Ddeddf a fewnosodir gan y cymal hwn yn adlewyrchu hynny.

7. Cymal 2: Cwmpas, Cychwyn a Theitl Byr

   Mae'r cymal hwn yn darparu bod y Bil yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae'n nodi nad yw'r diwygiadau yn gymwys i dramgwyddau a gyflawnwyd cyn bod y Ddeddf yn dod i rym. Mae'r cymal yn nodi teitl byr y Bil hefyd.

8. Mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau yng Nghymalau 1 a 2 o'r Bil oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid ydynt yn ymwneud â materion a

gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 am eu bod yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)**

9. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn y Llywodraeth yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU am resymau amser ac ystyrlondeb. Mae darpariaethau'r Bil yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid. Bydd eu cyflwyno ym Mil y DU hwn yn golygu y rhoddir yr un gosb yng Nghymru ag yn Lloegr i'r rheini sy'n cyflawni'r tramgwyddau mwyaf difrifol o ddioddefaint i anifeiliaid.

**Goblygiadau ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru nac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ganlyniad i'r Bil hwn.

**Casgliad**

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn oherwydd ei fod yn sicrhau trefn ddedfrydu gyson ar draws Cymru a Lloegr, ac yn sicrhau eglurder ar gyfer asiantaethau gorfodi, y Llysoedd a'r cyhoedd.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Gorffennaf 2019**